

chanolbwyntio unwaith yn rhagor ar y llyfrwerthwyr eraill. Wrth gwrs, bu amryw o'r siopau uchod a'u drysau'n agored am flynyddoedd ar ôl y cyfnod uchod. Pa fodd bynnag, dirwyn i ben a fu hanes rhai ohonynt a phan edrychwn ar nifer o lyfrwerthwyr yn rhestr Cyfarwyddiadur Bennet am 1910, gwelwn mai dim ond tair a restrir yn hen Dref y Glaw:

R. Griffiths, Bookseller and Stationer,  
75 High Street;

E. Roberts, Bookseller, 14 High Street;

J. Thomas, Bookseller and Stationer.

Cedwid un arall yn Nhŷ Nant, Llan Ffestiniog, gan Dafydd Roberts, yn ogystal. Pa fodd bynnag, a thorri'r stori'n fyr rwan, gellir dweud i bob pwrpas mai lleihau yn eu nifer fu hanes ein siopau llyfrau wedyn, er y bu cwmnïau fel W. H. Smith ac Woolworth yn gwerthu llyfrau a llyfrynau am rai blynyddoedd ar ôl yr Ail Ryfel Byd, ond cau eu drysau a wnaethant hwythau hefyd. A meddwl amdano, mae hi'n syndod fod un siop llyfrau yn dal yn agored yn y dref o gwbl y dyddiau hyn. Ond fel y gŵyr darllenwyr *Y Casglwr*, deil un dda iawn ar agor yma hyd heddiw. Ie, 'Siop yr Hen Bost', ynte?

Cyn imi gau'r llyfr a'i roi'n ôl ar y silff, fel petae, efallai nad anniddorol a fydda rhyw air neu ddau am gefndir hen lyfrwerthwyr selocaf ein tref yn ystod y cyfnod dan sylw a'r gwasanaeth amhrisiadwy a ddarperid ganddynt i'n teidiau a'n neiniau gynt. Dechreuaf gyda:

#### Richard Griffiths (1849–1913)

Gŵr yn enedigol o Abergynolwyn oedd Richard Griffiths. Credaf mai rhywro yn ystod yr 1890au yr agorodd ei siop llyfrau yn ein tref, sef yn 75 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog. Bu'n llyfrwerthwr am nifer o flynyddoedd, ac ar ôl ei farwolaeth dilynwyd ef yn y fasnach tan yr 1940au gan ei weddwr, Mrs Annie Griffiths. Bu Richard Griffiths yn ŵr amlwg yn y Blaenau ac yn ymroddedig iawn gyda phopeth yn gysylltiedig â gwella'n hardal. Gwnaeth lawer dros achos y chwarelwyr ac ymladdodd yn ddewr dros gyfiawnder i'w gydweithwyr. Bu'n flaenor yng Nghapel Tabernacl (M.C.) am oddeutu 27 mlynedd. Gorwedd ei weddillion ym mynwent Bethesda, Blaenau Ffestiniog.

#### Robert R. Hughes 'Treborfab' (1852–1927)

Un o Sir Gaernarfon oedd Treborfab yn wreiddiol. Bu'n cadw siop llyfrau yn 144 Stryd Fawr, Blaenau Ffestiniog am sawl blynyddyn, ac fel y dywedwyd eisoes, âi o amgylch yr ardal a'r chwareli i werthu llyfrau. Bu'n ohebydd y cylch hwn i'r newyddiadur *Baner ac Amserau Cymru* am rai blynyddoedd yn ogystal â gohebu i'r *Brython*. Yn 1914, cyhoeddodd ei chwedl hanesyddol *Gwen y Bwth*, sydd wedi ei lleoli yn y cylch hwn a Chaer. Ymddiddorai mewn llenyddiaeth Gymraeg a hanes Cymru. Bu'n aelod ffyddlon gyda'r Methodistiaid Calfinaidd ac roedd yn ddirwestwr selog. Ymddiddorai mewn pysgota hefyd a bu'n aelod blaenllaw o Gymdeithas Enweiriawl y Cambrian am sawl blynyddyn. Claddwyd ef ym mynwent Bethesda.

#### Alun Jones (1878–1911)

Cadwai siop llyfrau, tobaco a nwyddau ysgrifennu 'The Paragon' yn 32 Stryd yr Eglwys, Blaenau Ffestiniog. Roedd yn enedigol o'n plwyf a dechreuodd mewn masnach yn ifanc iawn. Rhywro oddeutu 1906/07, cyhoeddodd dau albwml lluniau, un ohonynt yn cynnwys lluniau o dref y

Blaenau a'r cylch, a'r llall gyda lluniau o'r Blaenau a gwersyll milwrol Trawsfynydd – y ddau ohonynt yn brin iawn heddiw. Bu ganddo gyfres o gardiau post darluniadol o'r enw 'Ffestin Series' yn ogystal. Gyda llaw, cedwid siop nwyddau ysgrifennu a thobaco ganddo hefyd ym Mron Aber, Trawsfynydd, neu 'Tin Town', fel y'i gelwid gennym gynt, ar gyfer y rhan hon o'r wlad a'r gwersyll milwrol a oedd yno. Dywedir ei fod yn ŵr diwyd iawn ac yn gefn i achos Bedyddwyr y cylch am flynyddoedd. Bu farw yn ŵr ifanc 33 oed, tra'n aros yn Nhrefdegar Newydd, Morgannwg. Mae ei fedd ym mynwent Bethesda, Blaenau Ffestiniog.

#### David Roberts (1847–1920)

Un yn enedigol o blwyf Llanfor ger Y Bala oedd Dafydd Roberts. Oddeutu 1880 daeth i letya i Lan Ffestiniog ac yna dechrau masnachu yn Nhŷ Nant yn y pentref. Daeth ei siop llyfrau yn adnabyddus i lawer a galwai llyfrbryfaid yno o bell ac agos gan y gwyddai am hen lyfrau a llawysgrifau prin ac roedd yn awdurdod ar lenyddiaeth Gymraeg ddiweddar. Dywedir ei fod wedi bod 'yn gyfrwng i gyflenwi llyfrgelloedd Colegau Aberystwyth a Bangor gyda llawysgrifau prin ac roedd ef a Syr O. M. Edwards yn gyfeillion mynwesol ac yn ymgynghori â'i gilydd parthed cwestiynau llenyddol.' Ymbriododd Dafydd Roberts ag Annie, merch David Owen, Highgate Cottage, Llan Ffestiniog, yntau hefyd yn hyddysg yn y 'pethau'. Gwnaeth wasanaeth rhagorol yn ei ddydd a chasglodd filoedd o lyfrau dros y blynyddoedd. Bu farw fis Mai 1920 a chladdwyd ef ym mynwent Cefnddwysarn, nid nepell o'r Bala.

#### Elis Roberts (1822–1894)

Gŵr yn enedigol o Arfon yn wreiddiol. Bu'n ysgolfeistr am beth amser cyn iddo agor siop llyfrau oddeutu'r flwyddyn 1870, sef 'The Workmen's Bookshop' yn 14 Stryd Fawr y Blaenau. Bu Ellis Roberts, ac yn ddiweddarach ei weddwr Jane, yn gwerthu llyfrau yn ein tref am fwy na 45 mlynedd i gyd. Roedd yn aelod gyda'r Wesleiaid yng Nghapel Ebeneser, a safai gynt ym mhrif heol y Blaenau. Bu farw yn y flwyddyn 1894 a chladdwyd ef ym mynwent Bethesda, Blaenau Ffestiniog. Ar ei garreg fedd nodir ef fel 'Llyfrwerthwr' a cheir yr englyn canlynol er cof amdano:

Cynhyrchion llawnion ddarllenodd – yn goeth  
Un i'w gylch o'i wirfodd,  
O werth fus; ac un wrth fodd  
Ei waredwr a'i wardiodd.

#### Richard John Thomas (1840–1907)

Un o Benmachno oedd R. J. Thomas yn wreiddiol. Bu'n gweithio yn y chwarel i ddechrau cyn troi ei law at werthu llyfrau a'r

cyfryw. Yn 1 Market Place, gerllaw Neuadd y Farchnad, yr agorodd ei siop yn gyntaf ac wedyn symudodd i Bradford House, 13 Stryd yr Eglwys yn y Blaenau 'ma. Yn ôl un adroddiad papur newydd, gwasgarodd gannoedd o lyfrau da ymysg yr ardalwyr a bu am flynyddoedd yn un o ddsbarthwyr *Yr Herald* a phapurau eraill. Symudodd y teulu o'r Blaenau tua 1902 ac ymgartrefu ym Mhwlheli. Bu farw ein gwrthrych yn 1907 a chladdwyd ef ym mynwent Eglwys Deneio, Pwllheli.

#### Robert Thomas (1823–1899)

Gŵr yn enedigol o Benmachno oedd Robert Thomas, hefyd. Yn ôl y sôn, ef oedd y cyntaf i agor siop llyfrau yma, ac fel y dywedwyd eisoes, digwyddodd hynny oddeutu'r flwyddyn 1855. Bu'n rhedeg ei farchnad brysur ym Methania am dros ddeugain mlynedd i gyd. Roedd yn ŵr goleuedig ac o farn glir ac yn gymeriad adnabyddus a phoblogaidd. Brawd iddo oedd J. Thomas Is-lywydd y Coleg Normal, Bangor. Bu farw Robert Thomas yn 1899 a chladdwyd yntau, fel un neu ddau a enwyd eisoes, ym mynwent Bethesda.

#### Diweddgo

Wrth gwrs, dim ond cipdrem sydyn ar hanes rhai o hen lyfrwerthwyr cylch 'Stiniog yn ystod y cyfnod 1850–1910 a gafwyd uchod. Yn ddiau, y mae llawer mwy i'w ddweud amdanynt un ac oll. Pa sut bynnag, bydd yn rhaid gadael hynny am y tro a chloi gyda diolchiadau i'r cyfeillion canlynol am eu cymorth parod i gael yr ysgrif hon i olau dydd: Dafydd ac Eleri Jones, Siop yr Hen Bost; Emrys Evans, Y Manod; Janet Simcox, Archifdy Dolgellau; Dylan Rowlands, Archifdy Caernarfon; Staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth.

#### Gwybodaeth bellach

1. Chwalwyd tai Adwy Goch, Deudraeth a Llety'r Allt oddeutu tair blynedd yn ôl. (Cyfeirir atynt yn yr erthygl gyntaf yn *Y Casglwr*. tud. 6, colofn 1, 12 llinell o'r gwaelod).

2. Dyfynnwyd o gyfres o ysgrifau 'Blaenau Ffestiniog Lawer Blwyddyn Yn Ol' a ymddangosodd yn *Y Rhedegydd* am Awst 1932. Gyda llaw, roedd Robert Lewis Jones yn hen ewythr i Mrs Eleri Jones, Bryn Offeren (Siop yr Hen Bost) Blaenau Ffestiniog. (Cyfeirir at y dyfyniad yn y rhifyn diwethaf tud. 7, pen colofn 3)

#### CYWIARIAD

Yn erthygl Steffan ab Owain ar Hen Lyfrwerthwyr 'Stiniog yn y rhifyn diwethaf ar dud. 6, llinell 2 dylai ...Plwyf Blaenau Ffestiniog fod wedi darllen yn ...Plwyf Ffestiniog.

## DIWRNOD AGORED Y GYMDEITHAS

Cynhelir diwrnod agored y Gymdeithas yng Ngheltica, Machynlleth

Dydd Sadwrn 9 Ebrill 2005 yn dechrau am 10 y bore

10.00: Coffi

10.30: Sgwrs gan Buddug Medi – Kilvert a'i Ddyddiadur.

11.15: Sgwrs gan Don Treharne – Golwg bersonol ar Lestri Cymreig.

12.15: Cinio

1.15: Dr Dafydd Glyn Jones – Pwy oedd yr hen Ddramodwyr?

1.45: Cyfarfod Blynyddol y Gymdeithas (Anfonwech eich cynigion o flaen llaw).

Paned

2.45: Dyfed Evans ar John Roberts Williams – Brenin y Wasg Gymraeg.

Pris: £15

(Mae yna le i 50 yn unig, felly cysylltwch a'r Golygydd yn ddiymdroi)